(HCC 839)

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 13 Medi 2018**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Peter McDonald (Llywodraeth Cymru) – Eitem 13
Llinos Roberts (Llywodraeth Cymru)
Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)
Alison Wright (Calland Wright Consulting) - Eitem 9

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 10 a 13)

**Y Tîm Rheoli:** Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd: -

6 Gorffennaf 2018 – Roedd y Cadeirydd yn bresennol yn HCC ar gyfer y gwerthusiadau parhaus o'r Bwrdd.

12 Gorffennaf 2018 – Bu'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfod o Grŵp Prif Weinidog Cymru ynghylch Ymadael â'r UE. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol a rhoddwyd cyflwyniad ar Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru.

18 Gorffennaf 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Ngŵyl Ddefaid y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol yn Malvern. Cafwyd trafodaethau defnyddiol gyda dirprwyaeth o Seland Newydd (SN) ynghylch y fasnach gig coch rhwng y DG a SN.

20 Gorffennaf 2018 – Telegynhadledd diweddaru'r Bwrdd

23 a 24 Gorffennaf 2018 – Bu'r Cadeirydd yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn cynrychioli HCC mewn nifer o dderbyniadau a digwyddiadau allweddol.

14 Awst 2018 – Bu'r Cadeirydd yn Sioe Sir Benfro.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Dim.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Gorffennaf 2018 (HCC 832)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Gorffennaf 2018 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

Cafodd y materion a oedd yn codi o'r cofnodion blaenorol eu cynnwys yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

6. **Adroddiadau HCC**

*a. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 833)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod prisiau gwartheg yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr wedi gwella ychydig yn ystod mis Awst 2018. Roedd prisiau gwartheg difa wedi gwella hefyd, yn dilyn dirywiad yn ystod mis Gorffennaf 2018 am fod cynifer wedi eu lladd i gymhwyso niferoedd er mwyn ymdopi â'r sychdwr.

O ran defaid, roedd y tywydd sych a gafwyd yn ddiweddar wedi cael effaith ar besgi ŵyn tymor newydd. Er bod tipyn rhagor o ŵyn dethol wedi eu lladd yn ystod mis Gorffennaf, roedd yr ystadegau diweddaraf yn dangos fod bron 3% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2017, ac mae hyn yn cael effaith ar faint o gig defaid sydd yn cael ei gynhyrchu.

Dangoswyd hyn yn y gostyngiad yn yr ardoll ddefaid hyd at ddiwedd Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, roedd nifer uchel y defaid a laddwyd ym mis Awst 2018 yn golygu fod yr incwm o'r ardoll wedi gwella a'i fod fwy neu lai yn unol a'r incwm a glustnodwyd.

*b. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2018 (HCC 834)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Rhoddwyd cyllideb ddiwygiedig gerbron gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd bod y gyllideb wedi ei haddasu er mwyn cynnwys Rhaglen Datblygu Cig Coch y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 - 2020 (£9.2m dros gyfnod o bum mlynedd) a phrosiect meincnodi Cronfa Bontio yr UE (£150k). Cafodd y naill a'r llall eu dyfarnu'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i HCC i'w rhoi ar waith.

Cafodd y gyllideb ddiwygiedig ei chymeradwyo gan y Bwrdd.

Cytunwyd rhoi gwybodaeth am yr incwm Ardoll i'r Bwrdd yn fisol.

Byddai adroddiad ariannol llawn i'r Bwrdd ynghylch diweddariadau am Incwm a Gwariant a'r Gyllideb yn parhau yn ôl y drefn ac yn cael ei gyflwyno bob chwarter.

*c. Adroddiad Gweithgareddau (HCC 835)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Datblygu'r Farchnad*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn arddangosfa fwyd ryngwladol SIAL, Paris, a fyddai'n cael ei chynnal 21 – 25 Hydref 2018. Roedd y gwaith cynllunio ar fin cael ei gwblhau gydag allforwyr allweddol ynghylch arddangos eu busnesau a'u cynhyrchion. Byddai presenoldeb HCC yn SIAL eleni yn cael ei ariannu gan gyllid wedi ei glustnodi o'r gronfa Ardoll.

Byddai HCC yn cynnal derbyniad ar ei stondin ddydd Llun 22 Hydref 2018, a byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol.

Nodwyd bod dwy Aelod o'r Bwrdd, Helen Howells a Rachael Madeley Davies, am eu bod yn Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Farchnata, wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â SIAL er mwyn cael profiad uniongyrchol o bresenoldeb HCC mewn sioe fasnach ryngwladol. Byddai cyfle hefyd i'r ddwy gyfarfod â chynrychiolwyr HCC yn y farchnad.

Ar hyn o bryd roedd HCC yn siarad â'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Quality Meat Scotland (QMS) ynghylch comisiynu gwaith ymchwil trwy'r gronfa Ardoll Wedi ei Chlustnodi i'r galw am gynnyrch Halal yn y marchnadoedd cartref a thramor. Câi'r wybodaeth hon ei rhannu â'r Bwrdd pan fyddai ar gael.

Byddai'r Rheolwr Datblygu'r Farchnad yn mynd gyda phroseswyr sy'n allforio a swyddogion o Lywodraeth Cymru ar daith datblygu masnach i Catar ddiwedd Medi 2018..

O ran cael mynediad i'r farchnad yn Siapan, nid oedd unrhyw ddatblygiadau pellach i'w crybwyll yn dilyn ymweliad dirprwyaeth archwilio systemau i Gymru ym mis Gorffennaf 2018. Disgwylid taith bellach yn ystod Rhagfyr 2018 / Ionawr 2019, ond byddai hynny'n dibynnu ar adroddiad boddhaol yn dilyn archwiliad o'r systemau.

Ar hyn o bryd, roedd HCC mewn trafodaethau ag AHDB a QMS ynghylch teithiau masnach i farchnadoedd allweddol posibl o dan y gronfa Ardoll wedi ei Chlustnodi, ac roedd Siapan yn cael ei hystyried i fod yn un o'r gwledydd.

Yn y DG, bu presenoldeb HCC yn Countryfile Live a Marchnad Borough i hyrwyddo Cig Oen Cymru PGI yn llwyddiannus iawn o ran ymgysylltu a chasglu data ar gyfer cronfa ddata defnyddwyr HCC. Bu'r defnydd o Chris Roberts a choginio yn null Asado / Barbiciw yn boblogaidd eto ymhlith defnyddwyr.

Bu HCC yn gwneud gwaith hyrwyddo yn ystod Wythnos Caru Cig Oen (1 – 7 Medi 2018) pan gynhaliwyd nifer o weithgareddau ledled y DG ar y cyd â brand AGA a oedd yn cynnwys arddangosiadau coginio Cig Oen Cymru PGI mewn siopau AGA dethol. Ymhlith gweithgareddau eraill roedd tŷ bwyta dros dro yn sinema pen tŷ Lost Lands gyda chinio wedi ei baratoi gan Imran Nathoo, a gyrhaeddodd rownd derfynol y gyfres deledu 'Masterchef. Yn ogystal, rhoddwyd sylw i Gig Oen Cymru PGI ar raglen "Nadiya's British Food Adventure" ar BBC2 pan ffilmiwyd ar fferm Richard Roderick, un o Ysgolorion HCC.

*Datblygu'r Diwydiant*

Ar hyn o bryd roedd gwaith adran Datblygu'r Diwydiant yn canolbwyntio ar y prosiect Meincnodi Cig Coch a'r Rhaglen Datblygu Cig Coch (Eitem 8).

Penodwyd HCC i oruchwylio'r prosiect Meincnodi gydag arian o'r £50m yng Nghronfa Bontio'r UE.

Byddai'r prosiect yn ymwneud â chasglu data oddi wrth ffermwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o fusnesau a pherfformiadau ffermydd. Câi'r wybodaeth a gesglid ei defnyddio wrth baratoi ar gyfer dyfodol hydwyth i'r sector cig coch.

Byddai arian ar gael ar gyfer hyd at 2,000 o ffermwyr â busnesau magu defaid a gwartheg rhwng 8 Hydref 2018 a 10 Rhagfyr 2018.

Byddai angen llenwi holiadur ar-lein i roi manylion ariannol a ffisegol am ffermydd.

Yn gyfnewid, byddai ffermwyr yn cael: -

- dadansoddiad manwl ysgrifenedig o'r data er mwyn gallu cymharu perfformiad eu busnesau â busnesau eraill yn y sector

- £1,000 i'w digolledu am amser ac ymdrech.

Nodwyd y câi'r holl wybodaeth gan ffermwyr ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

*Cyfathrebu*

Eitemau yn cael sylw dan Eitemau 6d, 6e a 6f.

*d. I gael adborth am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2018*

Cytunodd y Bwrdd fod presenoldeb HCC yn y Sioe wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig o ran ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi a hefyd am sylw sylweddol gan y cyfryngau.

Unwaith eto, bu'r brecwast yn llwyddiannus iawn ac yn fodd i'r Bwrdd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant.

Cafodd dyluniad newydd y stondin er mwyn cynnwys lle ar gyfer barbeciw ei groesawu gan y Bwrdd a chanmolwyd yr ystod o weithgareddau, yn enwedig y rhai a oedd yn cynnwys Chris Roberts.

Diolchodd y Bwrdd a'r Weithrediaeth yr Aelod Bwrdd John Davies am ei gymorth yn trefnu bod pobl gwleidyddol a nodedig yn ymweld â stondin HCC.

Nodwyd yr adborth manwl gan y Rheolwr Cyfathrebu a byddai hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu.

*e. Digwyddiadau i ddod (HCC 836)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*f. I gael briff ar Gynhadledd Flynyddol HCC - Ddydd Iau 8 Tachwedd 2018*

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu ddiweddariad ynghylch cynlluniau HCC ar gyfer y gynhadledd, yn dilyn adborth blaenorol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu: -

Cynhelid y gynhadledd eleni yng Nghanolfan yr Aelodau, Maes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt.

Y thema arfaethedig oedd “Her Byd sy'n Newid”, gyda golwg ar Brexit ac edrych i'r dyfodol.

Byddai'r gynhadledd yn dechrau am 3pm gan obeithio y byddai sesiwn yn hwyr y prynhawn neu gyda'r nos yn denu mwy o ffermwyr.

Roedd y prif siaradwr yn cael ei drefnu, a chadarnhawyd y byddai Ysgrifennydd y Cabinet; Tim Render, Llywodraeth Cymru; Grant Cochrane, Oritain; a Dr Prysor Williams, Prifysgol Bangor, yn cymryd rhan.

7. **Pwyllgorau HCC**

**Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata**

*I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Gorffennaf 2018*

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Bwrdd fel a ganlyn: -

- Rhoddwyd cyflwyniad gan y Swyddog Marchnata Brand am weithgareddau marchnata oddi ar y cyfarfod blaenorol a chrynodeb o ganlyniadau ymgyrchoedd Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI 2017 / 2018

- Rhoddwyd cyflwyniad am y dechnoleg 360 Mapper sy'n cael ei defnyddio ar gyfer ymgyrch Cig Oen Cymru PGI. Roedd yn golygu y gallai HCC wrando ar ddefnyddwyr ar-lein trwy gyfrwng amryw o sianeli a thracio #tagiau a sgyrsiau poblogaidd er mwyn targedu pobl penodol ar gyfer marchnata cynnwys.

8. **I gael diweddariad ar lafar am Fenter Strategol HCC – Y Rhaglen Datblygu Cig Coch (wedi'i hariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020)**

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud cyhoeddiad yn Sioe Frenhinol Cymru am y rhaglen gyllido gwerth £9.2m i'w darparu gan HCC.

Croesawyd y cyhoeddiad gan y Bwrdd, a chanmolwyd Gweithrediaeth HCC am y gwaith a wnaed i gael y rhaglen.

Byddai'r Rhaglen yn ymgysylltu â phob agwedd ar y gadwyn gyflenwi, gan hybu cynhyrchiant ffermydd a gwneud yn siŵr y byddai cynhyrchu cig coch yn y dyfodol yn ateb gofynion defnyddwyr gartref a thramor, gyda golwg ar sut maen nhw'n newid ac yn mynd yn fwy dethol.

Byddai HCC yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant ar dri phrosiect strategol a fyddai'n canolbwyntio ar iechyd anifeiliaid, geneteg ac ansawdd cig.

Roedd hyn yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd, ac roedd recriwtio'n digwydd am staff arbenigol ar gyfer y prosiectau.

9. **I gael diweddariad am broses werthuso Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol HCC**

Dal yr eitem yn ôl - cyfrinachedd masnachol.

10. **I ystyried fframwaith drafft o ymateb HCC i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru (HCC 837)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Cadeirydd a'i grynhoi gan y Prif Weithredwr.

Ymunodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch â'r cyfarfod er mwyn cael y pwyntiau allweddol gan y Bwrdd fel y gellid eu defnyddio ar gyfer ymateb ffurfiol HCC i'r ymgynghoriad.

Roedd y fframwaith drafft wedi cael ei baratoi er mwyn ysgogi trafodaeth gan y Bwrdd fel y gellid cytuno ynghylch yr egwyddorion pwysicaf cyn llunio ymateb ffurfiol HCC erbyn y dyddiad cau ar 30 Hydref 2018.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd y dylid seilio ymateb HCC ar ddiogelu / cynyddu gweithgaredd economaidd tra'n darparu nwyddau cyhoeddus.

11. **EIDCymru**

*I gael, er gwybodaeth, Cyfrifon Blynyddol EIDCymru ar gyfer 2017 / 2018 (HCC 838)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

12. **Unrhyw fater arall**

*Adolygiad o'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth*

Nodwyd bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) wedi lansio "Cais am Sylwadau ar y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth" ar 31 Awst 2018.

Roedd hyn yn ymarfer ar y cyd rhwng y Llywodraethau yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddai'n ceisio sylwadau ynghylch dibenion y Bwrdd, ynghyd â'i wasanaethau, cynrychiolaeth talwyr Ardoll, Llywodraethiant a systemau cyllido'r Ardoll.

Byddai ymateb drafft yn cael ei baratoi gan y Weithrediaeth er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 9 Tachwedd 2018.

*Y Mesur Amaethyddiaeth 2017 - 2019*

Nodwyd bod yr uchod wedi cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth (Darlleniad Cyntaf) ar 12 Medi 2018. Câi'r Mesur ei ystyried gan Aelodau Seneddol yn ystod Ail Ddarlleniad ar 10 Hydref 2018..

Roedd cyflwyno'r Mesur Amaethyddiaeth yn golygu y byddai'r holl gamau angenrheidiol wedi'u cwblhau ar gyfer y trawsnewid amaethyddol ôl-Brexit yn 2021, gan sicrhau trawsnewid esmwyth i'r polisi mewnwladol newydd.

Roedd y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Mesur Amaethyddiaeth yn cynnwys:-

- Grymoedd ariannol newydd ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol
- Casglu a rhannu data
- Grymoedd i ymyrryd mewn amodau marchnad eithriadol
- Pennu safonau marchnata
- Cyfaddasu deddfwriaeth yr UE sy'n cael ei chadw ac sy'n berthynol i ariannu, rheoli a monitro taliadau i ffermwyr, gan gynnwys Cynllun Taliad Sylfaenol y PAC.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol ar y cyfan i'r Mesur Amaethyddiaeth fel y cafodd ei lunio, ond bod dau fater i'w datrys eto: -

- Darpariaethau sydd yn berthynol i'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth gan Sefydliad Masnach y Byd; a'r
- Ardoll Cig Coch

Adolygid yr uchod drwy'r adeg gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth HCC.

*Pwyllgor Monitro Cynllun Gweithredu Strategol HCC*

Dywedwyd wrth y Bwrdd y cytunwyd, yn dilyn cyfathrebiad rhwng Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth HCC, y byddai Llywodraeth Cymru nawr yn goruchwylio'r ddarpariaeth yn unol â'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Cymru tra byddai HCC yn canolbwyntio ar y ddogfen Gweledigaeth 2025. Byddai'r trefniad hwn yn osgoi unrhyw ddryswch o fewn y diwydiant a byddai HCC yn monitro'r ddwy ddogfen.

Oherwydd yr uchod, byddai Pwyllgor Monitro Cynllun Gweithredu Strategol HCC yn peidio â bod fel un o Bwyllgorau Bwrdd HCC a byddai'r dyletswyddau ysgrifenyddiaeth a monitro yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai Aelodaeth cyfredol y Pwyllgor yn cael ei chadw.

*Quality Meat Scotland (QMS)*

Nodwyd bod Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi fod Gweinidogion wedi penodi Kate Rowell (ffermwr cig eidion a defaid, a milfeddyg) i fod yn Gadeirydd newydd QMS. Byddai'r Cadeirydd presennol, Jim McLaren, yn rhoi'r gorau i'r swydd ar 1 Hydref 2018.

13. **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio Cymru**

*I gael briff ynghylch yr ymgynghoriad gan Peter McDonald, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth ac Uned Diwygio Rheolaeth Tir Llywodraeth Cymru*

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Peter McDonald i'r cyfarfod er mwyn rhoi crynodeb o'r egwyddorion yn yr ymgynghoriad.

Trafodwyd sylwadau'r Bwrdd am yr ymgynghoriad a fyddai'n sail i ymateb ffurfiol gan HCC i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

14. **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol: -**

Telegynhadledd ddiweddaru Bwrdd HCC – Dydd Iau 4 Hydref 2018 11am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Mercher 7 Tachwedd 2018

**Llofnodwyd……………………………**
**Cadeirydd HCC**